# PHILLIPS, DAVID (1812 - 1904), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, bardd a golygydd



**Enw:** David Phillips
**Dyddiad geni:** 1812
**Dyddiad marw:** 1904
**Rhiant:** Joshua Phillips
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, bardd a golygydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 14 Rhagfyr 1812 ym Mancyfelin, Sir Gaerfyrddin, mab y Parch. Joshua Phillips (1785 - 1868) - yr oedd JOHN PHILLIPS (1750 - 1842), Meidrym, ei dadcu, yntau yn bregethwr Methodist adnabyddus. Symudodd yn ieuanc i Faesteg, Morgannwg, lle bu'n bostfeistr. Dechreuodd bregethu yn 1839 a bu'n fath ar fugail ar eglwys Tabor. Ordeiniwyd ef yn sasiwn Aberafan, 1854. Symudodd i Abertawe yn 1873; bu farw yno 5 Mehefin 1904, a'i gladdu ym mynwent y Crug-glas. Cyhoeddwyd cyfrol o'i gerddi defosiynol o dan y teitl *Y Dyn Crist Iesu*. Bu ef a Thomas Levi yn cydolygu'r cylchgrawn i ieuenctid, *Yr Oenig*, 1853-6. Ceir llawer o'i gynnyrch llenyddol yng nghylchgronau'r Methodistiaid Calfinaidd.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau

*Y Drysorfa*, 1842, 128; 1905, 16

*Y Geninen* (G yl Dewi), 1905, 10

*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1905, 204

Joseph Evans, *Biographical Dictionary of Ministers and Preachers of the Welsh Calvinistic Methodist Body ... to the close of the year 1850* (1907), 242

T. M. Jones, *Llenyddiaeth fy Ngwlad* (1893), 153

J.M. Jones, *Hanes Eglwys Tabor, Maesteg*, 21

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732881

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu